Fforwm Arfordir Sir Benfro
Rhif cwmni: 8447094

Ebrill 12ain, 2019

Cefndir ar gyfer Cyfarwyddwyr Arfordir Sir Benfro (PCF)

Arllwysodd trychineb y Sea Empress yn 1996 72,000 tunnell o olew i ddyfroedd Sir Benfro, gan ladd miloedd o adar y môr, gan gau tiroedd pysgota a thraethau am fisoedd. Tynnodd y digwyddiad trasig hwn sylw at y pwysau a'r bygythiadau i'r amgylchedd ac economi leol. Datblygodd dealltwriaeth rhwng Aelodau Seneddol lleol, awdurdodau lleol, y Porthladd, sefydliadau cadwraeth, diwydiant a chymunedau fod angen corff annibynnol i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu arfordir Sir Benfro. Felly, ganwyd Fforwm Arfordir Sir Benfro.

Wedi'i sefydlu yn 2000, mae PCF yn gwmni buddiannau cymunedol arobryn sy'n gweithio i ddiogelu'r arfordir ac amgylcheddau morwrol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau. Rydym yn ymdrechu i gael cymuned wydn gydag economi arfordirol sy'n ffynnu, gan fyw mewn cytgord â'n hadnoddau naturiol. Mae gan PCF dîm penodol sy'n arbenigwyr ar ddarparu ymgysylltu â rhanddeiliaid annibynnol, datblygu prosiectau a gweithio mewn partneriaeth. Mae ein cydberthnasau hirdymor â phartneriaid arfordirol wedi'u hadeiladu dros y blynyddoedd ar sail ymddiriedaeth a dealltwriaeth.
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Trosolwg o'r Prosiect

Cod Morol Sir Benfro - Mae'r Cod Morol yn annog defnyddwyr i ddangos parch ac ystyriaeth tuag at yr amgylchedd morol, tirfeddianwyr, bywyd gwyllt a defnyddwyr eraill wrth archwilio'r arfordir ac ardaloedd ar y môr yn Sir Benfro. Cyflawnir hyn drwy godau ymddygiad gwirfoddol, cyfyngiadau mynediad y cytunwyd arnynt, addysg, a chreu a hyrwyddo arfer gorau.
www.pembrokeshiremarinecode.org.uk

Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro - Mae'r grŵp siarter awyr agored yn cynnwys busnesau antur awyr agored, canolfannau addysg amgylcheddol a chadwraethwyr, gyda'r nod o leihau effaith hamdden awyr agored ar dirweddau Sir Benfro a Bywyd gwyllt. Drwy ymrwymo i'r Siarter, mae pob aelod yn cytuno i leihau eu heffeithiau amgylcheddol ac i annog eraill i wneud yr un peth.
www.pembrokeshireoutdoors.org.uk

Ennillydd Gwobr *"Menter Gymdeithasol mwyaf Cynaliadwy yng Nghymru"*

Enillydd Gwobrau Ynni Gwyrdd Cymru "Eiriolwr Eithriadol"

Rownd Derfynol Gwobrau Natura 2000 yr UE "Buddiannau Cymodi"

Fforwm Arfordir Sir Benfro, Ail Lawr, Pier House, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6TR Tel: 01646 405696/07748737322
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Ynni Morol Cymru - Mae Ynni Morol Cymru yn dwyn ynghyd ddatblygwyr technoleg, y gadwyn gyflenwi, academia a'r sector cyhoeddus er mwyn sefydlu Cymru fel arweinydd byd-eang o ran cynhyrchu ynni morol cynaliadwy, gan wneud cyfraniad sylweddol at economi carbon isel.
www.marineenergywales.co.uk

META - Mae PCF, drwy ei raglen Ynni Morol Cymru, yn datblygu cyfres o ardaloedd a gydsyniwyd ymlaen llaw yn Nyfrffordd Aberdaugleddau gyda'r nod o gefnogi'r defnydd byrdymor o ddyfeisiau ynni morol a chydrannau. https://www.marineenergywales.co.uk/meta/ Mae'r prosiect hwn hefyd yn rhan o fargen ehangach Dinas Bae Abertawe.

Cwricwlwm arfordirol - Drwy gyfrwng gwersi a gweithgareddau a arweinir gan arbenigwyr, yn yr ysgol ac allan ger y môr, nod ein rhaglen cwricwlwm arfordirol yw cysylltu myfyrwyr ag elfennau ffisegol, dynol ac amgylcheddol yr arfordir. Ein nod yw datgloi diddordeb yn y posibilrwydd o yrfaoedd lleol cyffrous yn y sector deinamig hwn.
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/projects/education

Mapio Gweithgareddau Cymru - Mae Mapio Gweithgareddau Cymru'n rhoi gwybodaeth fanwl am amrywiaeth o weithgareddau morol ac arfordirol sy'n cael eu harddangos mewn system GIS. Defnyddir y wybodaeth gan sawl asiantaeth fel sail tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio arfordirol ac fe'i cydnabyddir fel arfer gorau ar raddfa fyd-eang.
www.walesactivitymapping.org.uk

EEP Ecobank/BRICS - Bydd Partneriaeth Menter ecosystemau yn creu partneriaeth rhwng rheolwyr tir, diwydiant, masnach, y llywodraeth a'r trydydd sector yn cydweithio i ddatblygu a pheilota cynllun gwrthbwyso maethynnau ar gyfer dalgylch Aberdaugleddau a Cleddau. Bydd yr Ecobank yn gynllun sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES) sy'n darparu proses asesu maethynnau symlach ar gyfer datblygu cynllun gwrthbwyso.
www.eepecobank.co.uk

Datblygiad yn y dyfodol

Mae PCF yn chwilio am ddau Gyfarwyddwr i fod yn rhan o gwmni buddiannau cymunedol arloesol a chynyddol gydag arfordiroedd cynaliadwy fel ei weledigaeth. Cyfarwyddwyr fydd yn llywio cam nesaf ei ddatblygiad, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn perthynas â rheolaeth arfordirol gynaliadwy; ynni adnewyddadwy morol; hamdden cynaliadwy a rhagnodi cymdeithasol, newid yn yr hinsawdd; ymgysylltu â rhanddeiliaid; o fewn a thu allan i Sir Benfro. Yn ogystal â phobl sy'n bodloni gofynion swydd ddisgrifiad y Cyfarwyddwr a amlinellir isod, mae PCF yn chwilio am geisiadau gan unigolion sydd â phrofiad a sgiliau yn y meysydd canlynol:

Ennillydd Gwobr *"Menter Gymdeithasol mwyaf Cynaliadwy yng Nghymru"*

Enillydd Gwobrau Ynni Gwyrdd Cymru "Eiriolwr Eithriadol"

Rownd Derfynol Gwobrau Natura 2000 yr UE "Buddiannau Cymodi"

Fforwm Arfordir Sir Benfro, Ail Lawr, Pier House, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6TR Tel: 01646 405696/07748737322
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk

- Datblygu Busnes;
- Cyllid
- Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus;
- Cynaliadwyedd

Mae'r rolau'n ddi-dâl ond telir costau teithio rhesymol.
I wneud cais: Anfonwch CV a datganiad personol o ddim mwy na 500 o eiriau yn amlinellu sut y gallwch gyfrannu at ddatblygiad PCF i Nick Ainger Ainger - nick.ainger@live.co.uk erbyn 17/05 2019. Y Bwrdd Cyfarwyddwyr presennol www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/about-us/board/

Am sgwrs anffurfiol ynghylch PCF cysylltwch â David Jones, Prif Swyddog Gweithredol, ar 01646 406691.

SWYDD DDISGRIFIAD ar gyfer Cyfarwyddwyr Fforwm Arfordir Sir Benfro, Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)

Swydd: Cyfarwyddwr PCF - Fforwm Arfordir Sir Benfro CIC

Yn atebol i: Cadeirydd y Bwrdd

Prif ddyletswyddau

- Gweithredu fel Cyfarwyddwr PCF er budd y cwmni, gan gyfathrebu'n onest ac yn ddidwyll tuag at ei aelodau, ei weithwyr, y prif bartneriaid ariannu;
- Sicrhau bod amcanion y cwmni, fel y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, yn cael eu cyflawni'n llawn, yn brydlon ac yn briodol, gan gymhwyso llywodraethu da ac egwyddorion cynllunio strategol clir;
- Dirprwyo'r cyfrifoldeb a'r adnoddau i Gyfarwyddwyr Gweithredol, er mwyn cyflawni nodau datganedig y Cwmni;
- Optimeiddio perfformiad ariannol y cwmni yn y tymor byr a'r tymor hir; mabwysiadu a goruchwylio'r gyllideb flynyddol; ac adolygu adroddiadau ariannol a gweithredol;
- Chwarae rhan lawn yn y gwaith o alluogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau cytbwys a gwrthrychol wrth gyflawni ei rôl a'i swyddogaethau cytunedig;
- Sicrhau bod y cwmni'n gweithredu o fewn y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio;
- Cymryd cyngor proffesiynol priodol ym mhob mater lle gallai fod risg materol i'r cwmni, neu lle y gallai'r Cyfarwyddwyr fod yn torri eu dyletswyddau;
- Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau.

Rhwymedigaethau'r Cyfarwyddwyr

- Mynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a alwyd yn ystod y flwyddyn oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn atal hynny, gan ymdrechu i gael penderfyniadau consensws gan y Bwrdd;
- Mynychu a chymryd rhan weithredol ym mhob cyfarfod, gan ddarparu beirniadaeth ddidwyll ac adeiladol, cyngor a sylwadau i'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Bwrdd;
- Rhoi eitemau ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd y mae ef/hi yn credu y dylid eu trafod;
- Sicrhau bod adroddiadau cyhoeddedig yn adlewyrchu sefyllfa ariannol a gweithredol y cwmni'n briodol;
- Paratoi'n dda ar gyfer cyfarfodydd, adolygu cofnodion ac adroddiadau; diweddaru gwybodaeth am PCF;
- Osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau personol, neu feysydd posibl lle ceir gwrthdaro;
- Peidio â derbyn buddion gan drydydd parti a roddwyd oherwydd ei fod ef/hi yn Gyfarwyddwr.

Hyd y tymor: 3 blynedd, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am dymor pellach.

Ymrwymiad amser: o leiaf 4 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn am 4 awr; Mynychu digwyddiadau PCF eraill, yn ôl yr angen.

Sgiliau a phrofiad:

Sgiliau Hanfodol:

- Persbectif strategol, gweledigaeth a'r gallu i weithio'n gadarnhaol o fewn tîm
- Cymhelliant ac ymrwymiad a'r gallu i arddangos hyn i eraill
- Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a negodi cryf, a'r gallu i ddatblygu partneriaethau effeithiol, cynaliadwy
- Parodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol i'r rôl
- Profiad o weithio gyda sefydliadau sy'n mynd drwy dwf a newid mewn amgylchedd polisi a gweithrediad ansicr ac sydd weithiau'n heriol
- Parodrwydd i fod yn Llysgennad ar gyfer PCF

Cymwyseddau a nodweddion dymunol:

- Ymrwymiad a diddordeb yn amcanion y sefydliad
- Gallu deallusol a dadansoddol cryf; meddyliwr arloesol a gallu i ganolbwyntio ar faterion sy'n gofyn am weithredu
- Deinamig, brwdfrydig ac egnïol
- Profiad o weithio gyda sefydliadau sy'n mynd drwy dwf a newid mewn amgylchedd polisi a gweithredol ansicr ac sydd weithiau'n heriol.

Ennillydd Gwobr *"Menter Gymdeithasol mwyaf Cynaliadwy yng Nghymru"*

Enillydd Gwobrau Ynni Gwyrdd Cymru "Eiriolwr Eithriadol"

Rownd Derfynol Gwobrau Natura 2000 yr UE "Buddiannau Cymodi"

Fforwm Arfordir Sir Benfro, Ail Lawr, Pier House, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6TR Tel: 01646 405696/07748737322
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Fel gydag unrhyw gwmni arall, mae Cyfarwyddwyr CIC mewn safle pwysig o ymddiriedaeth, ac mae'r gyfraith cwmnïau yn gosod ystod o ddyletswyddau arnynt. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y CIC yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau eraill. Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn codio'r dyletswyddau cyffredinol y mae'n ddyletswydd ar gyfarwyddwyr eu rhoi i'r cwmni.
https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-regulator-of-community-interest-companies